**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

27 Gorffennaf 2018

Annwyl Nick

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn y ddadl yn y siambr ar 11 Gorffennaf ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru tuag at brosiect Cylchffordd Cymru.

Wrth ymateb i chi gwnes gytuno i ysgrifennu atoch gan roi rhagor o wybodaeth am Argymhelliad 6 yr adroddiad. Roedd yr argymhelliad hwn yn amlinellu sawl gwaith y mae pryderon wedi'u codi ynghylch cyfarwyddiadau gan swyddogion awdurdodi i wneud taliadau, a hefyd yn esbonio sut y mae'r prosesau hyn yn rhai cadarn.

Mae gan staff nifer o opsiynau o safbwynt codi pryderon, a'r opsiwn cychwynnol yw troi at eu rheolwr llinell. Os nad yw'r aelod o staff yn teimlo'n gyfforddus ynghylch codi pryderon gyda'i reolwr llinell ond ei fod yn dymuno bwrw ymlaen ar lefel anffurfiol gall drafod y mater ag aelod uwch o'r tim, gyda Chynghorydd Adnoddau Dynol neu Gyllid, gyda chynrychiolydd ei Undeb Llafur neu gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethu, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol neu'r Cyfarwyddwr Cyllid.

Mae gan Lywodraeth Cymru Banel Chwythu'r Chwiban ffurfiol yn ogystal lle y gall pryderon gael eu codi drwy un o swyddogion enwebedig y Panel. Caiff y polisi a'r prosesau ar gyfer chwythu'r chwiban eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn a'u bod yn cydymffurfio â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

Caiff unrhyw gyswllt â'r Panel ei gofnodi ond nid ydym yn cadw ystadegau ynghylch y materion a gaiff eu codi drwy sianeli anffurfiol. Caiff yr ystadegau ynghylch chwythu'r chwiban eu cyhoeddi bob blwyddyn yng Nghyfrifon Llywodraeth Cymru (https://gov.wales/about/civilservice/how-we-work/facts-figures/ourfinance/welsh-government-consolidated-accounts/?skip=1&lang=cy).

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.